



## Cynllun Cyflawni 'Y Gaerffili a Garem' 2018-2023

Mae Cynllun Cyflawni 'y Gaerffili a Garem' 2018-2023 yn amlinellu'r camau lefel uchel fydd yn cael eu gweithredu dros y bum mlynedd nesaf er mwyn cyflawni'r Cynllun Llesiant.

Datblygwyd y camau lefel uchel ar ôl holl waith a wneuthpwyd yn ystod y broses gyfansoddi'r Asesiad Llesiant a'r Cynllun Llesiant, gan gynnwys ymgysylltu helaeth â'n preswylwyr, ein busnesau a'n sefydliadau parter i gyd. Gelwir y camau hyn nail ai yn 'Alluogyddion' neu'n 'Ardaloedd Gweithredu' drwy gydol gweddill y ddogfen hon.

Fel y datganir yn y Cynllun Llesiant, y pedwar Amcan Llesiant fydd yn sbarduno'r cyflawni dros y bum mlynedd nesaf ydy:

- **Newid Positif** – Ymrwymiad a rennir i wella'r ffordd yr ydym yn cydweithio
- **Dechrau Positif** – Rhoi'r dechrau bywyd gorau i genedlaethau'r dyfodol
- **Pobl Positif** – Grymuso a galluogi ein preswylwyr i gyd i gyflawni eu potensial eu hunain
- **Lleoedd Positif** – Galluogi ein cymunedau i fod yn gryf ac yn gynaliadwy

Mae'r Bwrdd yn cydnabod bod angen i ni symud i ffwrdd o'r dulliau blaenorol, sef gweithio'n ynysol fel arfer, er mwyn uchafu ei gyfraniad at y saith Nod Llesiant i Gymru a'n Hamcanion Llesiant ni. Felly, mae'r Galluogyddion a'r Ardaloedd Gweithredu wedi cael eu dylunio i fod yn drawsbynciol a chyfrannu at fwy nag un Nod Llesiant a/neu Amcan Llesiant.

Mae'r strwythur cyflawni fydd yn cefnogi'r Cynllun Cyflawni wedi'i nodi yn Atodiad 9. Bydd gan bob Galluogydd ac Ardal Weithredu unigolyn arweiniol penodedig, a fydd yn cael ei gefnogi gan Grwpiau Cyflawni presennol neu grwpiau newydd lle bo angen. Lle bydd grwpiau presennol yn dod yn Grŵp Cyflawni ar gyfer Galluogydd neu Ardal Weithredu benodol, ailystyrir aelodaeth y grwpiau hyn er mwyn sicrhau bod pob partner priodol yn cael ei gynnwys wrth fynd ymlaen.

Bydd pob Galluogydd neu Grŵp Ardal Weithredu yn gyfrifol am ddatblygu ei Gynllun Gweithredu manwl ei hun, er mwyn cyflawni'n unol y camau lefel uchel a fanylir yn y ddogfen hon. Datblygir y rhain gan ystyried Fframwaith y Comisiynydd dros Genedlaethau'r Dyfodol ar gyfer Prosiectau, ac yn unol â'r Fframwaith Atebolrwydd Perfformiad a ddisgrifir yn Atodiad 9. Felly, nid ydym yn credu ar yr adeg hon bod llunio amserlenni i gyflawni'r camau lefel uchaf yn briodol, oherwydd nad yw'r trafodaethau ynglŷn â chynlluniau gweithredu manwl ar gyfer pob cam wedi digwydd eto. Bydd amserlenni ar gyfer pob un o'r camau a'r gweithrediadau manwl yn cael eu llunio fel rhan o'r broses gynllunio gweithredu.

Er eglurder, diffinir 'Galluogydd' gan y Bwrdd yn egwyddor sylfaenol a fydd yn helpu i gyflawni'r Ardaloedd Gweithredu. Bydd hefyd yn galluogi'r Bwrdd i sbarduno newidiadau hirdymor sylweddol er lles pobl Bwrdeistref Sirol Caerffili, yn awr ac yn y dyfodol.

## GALLUOGYDDION

### Galluogydd 1 - Cydweithio

**Grŵp Cyflawni:** Pob Grŵp Cyflawni  
**Prif Swyddog(ion):** Wedi'u rhannu ar draws ein sefydliadau parter i gyd

#### Camau Lefel Uchel

1. Creu'r fframwaith cyflawni ar gyfer y Cynllun Cyflawni, gan gynnwys datblygu cynlluniau gweithredu manwl am bob Galluogydd ac Ardal Weithredu.
2. Darparu arweiniad i hwyluso'r newid sydd ei angen a galluogi dulliau newydd o weithio.
3. Uchafu'r synergedd gyda strategaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol allweddol a chynlluniau i osgoi dyblygu a darparu syniad clir o sut i gyfarwyddo a chyflawni gweithrediadau.
4. Pennu'r dulliau angenrheidiol i hwyluso cydweithio a rhannu ymarfer da.
5. Adnabod a defnyddio prosiectau ar y cyd sy'n cyflwyno lles gweithio gyda phartneriaid a rhannu adnoddau.

### Galluogydd 2 – Cyfathrebu ac Ymgysylltu

**Grŵp Cyflawni:** Grŵp Cyfathrebu ac Ymgysylltu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC)  
**Prif Swyddog(ion):** Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

#### Camau Lefel Uchel

1. Datblygu a gweithredu strategaeth ymgysylltu a chyfathrebu hirdymor i gynnwys a hysbysu rhanddeiliaid.
2. Cyflwyno negeseuon positif ar y cyd am y bwrdeistref sirol i'n preswylwyr, ein busnesau a mewnfuddsoddwyr posibl.

### Galluogydd 3 – Caffael a Chomisiynu

**Grŵp Cyflawni:** I'w gytuno  
**Prif Swyddog(ion):** Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

#### Camau Lefel Uchel

1. Sicrhau ein bod yn uchafu'r lles i'n cymunedau lle mae'n bosib wrth i ni wario ein harian.
2. Cydweithio i uchafu'r gwerth am arian sy'n dod o brynu nwyddau a gwasanaethau ar y cyd.
3. Sicrhau bod y nwyddau a'r gwasanaethau rydym yn eu prynu yn gynaliadwy, yn garbon isel, ac yn foesebol gyfrifol.
4. Cydweithio i ddatblygu fframweithiau caffael a chomisiynu ar y cyd ar draws y pum awdurdod lleol gan ganolbwyntio ar gomisiynu ar y cyd â'r trydydd sector, ynglŷn ag iechyd yn arbennig.

## Galluogydd 4 – Rheoli Asedau

**Grŵp Cyflawni:** I'w gadarnhau  
**Prif Swyddog(ion):** Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a Heddlu Gwent

### Camau Lefel Uchel

1. Uchafu defnydd a gwerth ein holl asedau.
2. Cydweithio i leihau ein defnydd o ynni a chynyddu maint o ynni gwyrdd rydym yn ei gynhyrchu a'i ddefnyddio.

## ARDALOEDD GWEITHREDU

### Ardal Weithredu 1 – Dechrau gorau mewn bywyd

**Pencampwr BGC:** Iechyd Cyhoeddus Cymru  
**Prif Swyddog(ion):** Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

#### Camau Lefel Uchel

1. Uchafu buddsoddi mewn blynyddoedd cynnar bywydau plant er mwyn adeiladu cryfder drwy gydol eu hoes, er mwyn lleihau'r baich ar wasanaethau yn y dyfodol.
2. Codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o bwysigrwydd profiadau bywyd cynnar (gan gynnwys profiadau niweidiol mewn plentyndod) wrth i weithwyr proffesiynol a phreswylwyr gydweithio i leihau anghydraddoldeb ar draws y fwrdeistref sirol.
3. Gweithio gyda gwasanaethau a phreswylwyr i leihau effaith profiadau niweidiol mewn plentyndod ar gyfer ein cenedlaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol.

### Ardal Weithredu 2 – Gwirfoddoli a phrentisiaethau

**Pencampwr BGC:** Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent (Gwirfoddoli) a Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili (Prentisiaethau)  
**Prif Swyddog(ion):** Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent (Gwirfoddoli) a Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili (Prentisiaethau)

#### Camau Lefel Uchel

1. Datblygu rhaglen gydgysylltiedig o wirfoddoli, i fagu lles personol a chyflogadwyedd, gan gynnwys hyrwyddo gwirfoddoli corfforaethol.
2. Sefydlu rhaglen o brentisiaethau i bob oed ar draws sefydliadau aelodol BGC gyda mynediad cydgysylltiedig.
3. Uchafu'r cyfleoedd i breswylwyr gan Gytundeb Dinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a Thasglu'r Cymoedd.

### Ardal Weithredu 3 – Iechyd da a lles

**Pencampwr BGC:** Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan  
**Prif Swyddog(ion):** Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

#### Camau Lefel Uchel

1. Gwella gweithio ar y cyd gyda phwyslais ar achub y blaen ac atal er mwyn mynd i'r afael ag heriau iechyd yn y dyfodol.
2. Buddsoddi mewn llesi ein staff.
3. Darparu system integredig ar gyfer iechyd, gofal cymdeithasol a lles yn nes i gartref gyda Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth.
4. Sicrhau bod gan staff rheng flaen y sgiliau a'r arbenigedd angenrheidiol i ddarparu gwasanaethau cysylltiedig sy'n diwallu anghenion y preswylwyr.
5. Cydweithio'n agos gyda'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol dros iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn sicrhau y datblygir blaenoriaethau unigol ochr yn ochr i gyflawni ein nodau llesiant cyffredin.
6. Creu awyrgylch cefnogol sy'n galluogi preswylwyr i reoli eu hanghenion corfforol, meddyliol a lles mewn partneriaeth â gwasanaethau.

## Ardal Weithredu 4 – Cymunedau diogelach a chryf

**Pencampwr BGC:** Heddlu Gwent (Diogelach) a Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili (Cryf)

**Prif Swyddog(ion):** Heddlu Gwent (Diogelach) a Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili (Cryf)

### Camau Lefel Uchel

1. Cefnogi ein cymunedau mwyaf difreintiedig i fod yn gryf ac yn gydlynol a'u galluogi i helpu'u hunain.
2. Cefnogi'r gweithio daearyddol ym mhartneriaeth 'Cynghrair ar gyfer Newid' fel y gellir eu hehangu ar draws yr ardal ac i gymunedau eraill.
3. Cefnogi partneriaid tai i ddarparu cartrefi priodol, fforddiadwy a chynaliadwy.
4. Gweithio gyda phartneriaid rhanbarthol i greu cymunedau diogel, hyderus a hyrwyddo cydlyniant cymunedol.
5. Cydweithio i fynd i'r afael â defnydd anghyfrifol o leoedd gwyrdd.

## Ardal Weithredu 5 – Gwarchod a gwella'r amgylchedd naturiol lleol

**Pencampwr BGC:** Cyfoeth Naturiol Cymru

**Prif Swyddog(ion):** Cyfoeth Naturiol Cymru

### Camau Lefel Uchel

1. Gwarchod, gwella a hyrwyddo ein hamgylchedd naturiol, gan gynnwys annog a chefnogi'r gymuned i gymryd rhan.
2. Adnabod a chael gwared ar y rhwystrau i bobl rhag cyrraedd lleoedd gwyrdd.
3. Cynyddu cyfraniad yr amgylchedd i iechyd neu les ein preswylwyr.